**Rhif: WG33299**

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Meysydd Tref a Phentref

Dyddiad cyhoeddi: 23 Hydref 2017

Ymatebion erbyn: 2 Chwefror 2018

This document is also available in English.

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

| | |
|---|---|
| **Golwg Gyffredinol** | Mae'r egwyddor ar gyfer diwygio y system trefi a meysydd tref yng Nghymru eisoes wedi'i sefydlu drwy Ran 8 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n pennu newidiadau amrywiol i Ddeddf Tiroedd Comin 2006.<br><br>Bwriad y diwygiadau hyn, yn y bôn, yw cyfyngu ar allu person i gofrestru tir fel meysydd tref neu bentref at ddiben drysu neu atal datblygiadau cyfreithiol yng Nghymru.<br><br>Cyflwynir pwerau i Weinidogion Cymru hefyd er mwyn gwneud mathau penodol o ddarpariaethau gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â'r diwygiadau hynny mewn rheoliadau.<br><br>Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn am amrywiol gynigion sy'n benodol i gynnwys rheoliadau o'r fath. |
| **Sut i ymateb** | Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 2 Chwefror 2018 a chewch ymateb yn un o'r ffyrdd canlynol:<br><br>E-bost: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad B a'i hanfon at:<br><br>**planconsultations-b@llyw.cymru**<br><br>Nodwch ymgynghoriad 'Meysydd Tref a Phentref – WG33299' yn y llinell bwnc.<br><br>Post: Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad B a'i hanfon at:<br><br>Ymgynghoriad Meysydd Tref a Phentref<br>Cangen Penderfyniadau<br>Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Cynllunio Positif - Cynigion ar gyfer diwygio'r system gynllunio yng Nghymru:<br><br>https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation-documents/140212positive-planning-proposals-to-reform-planning-cy.pdf<br><br>Deddf Cynllunio (Cymru) 2015:<br><br>http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/4/contents/enacted/welsh |

| | |
|---|---|
| **Manylion Cyswllt** | Am ragor o wybodaeth:<br><br>E-bost: planconsultations-b@llyw.cymru<br><br>Ffôn: Owain Williams: 0300 025 1715 |

**Diogelu Data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi.  Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'ucyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


## 1. Cyflwyniad a chefndir

Rhagair 1

Y Sefyllfa Bresennol 1

Pwrpas yr Ymgynghoriad 3

## 2. Meysydd Tref a Phentref

Golwg Gyffredinol 3

Y Cynigion

- Gwneud datganiad i awdurdodau cofrestru tiroedd comin 4
- Rheoli a chyhoeddi datganiad 5
- Cynnal cofrestr 7
- Fformat cofrestr 8
- Dileu eitemau o'r cofrestr 8

Atodiad A - Atodlen 6 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 10

## 1. Cyflwyniad a chefndir

### Rhagair

1.1 Ble y mae pobl leol wedi defnyddio 'eu hawl' i gynnal chwaraeon neu ddiddordebau cyfreithlon ar dir am gyfnod o o leiaf 20 mlynedd, mae adran 15 Deddf Tiroedd Comin 2006 ("Deddf 2006") yn caniatáu i unrhyw berson wneud cais i'r awdurdod cofrestru tiroedd comin perthnasol i'r tir gael ei gofrestru fel maes tref neu bentref.

1.2 Fodd bynnag, mae'r system ar gyfer cofrestru maes tref neu bentref yn gweithredu'n annibynnol i'r system gynllunio, sydd wedi bod yn broblem yn y gorffennol, o ystyried y gallai rhywun gofrestru er mwyn drysu neu atal datblygiad cyfreithlon.

1.3 Mae'r papur ymgynghori hwn yn awgrymu cynigion i atal hyn rhag digwydd trwy gyflwyno is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau, wedi i'r adrannau perthnasol o Ddeddf Gynllunio (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") gychwyn.

### Y Sefyllfa Bresennol

1.4 Ym mis Rhagfyr 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y papur ymgynghori *'Cynllunio Positif'*, oedd yn cynnwys cynigion i ddiwygio y system maes tref neu bentref yng Nghymru. Bwriad y cynigion yw:

- Galluogi perchnogion tir i gyflwyno datganiad i'w hawdurdod cofrestru tiroedd comin (a fyddai'n cynnwys ffurflen, map a dogfennau eraill sy'n cael eu hystyried yn berthnasol), er mwyn dod ag unrhyw gyfnod ble y mae pobl wedi cymryd rhan mewn chwaraeon neu ddiddordebau cyfreithiol ar y tir, i ben, ac felly gyfyngu ar y posibilrwydd o dir yn cael ei gofrestru fel maes tref neu bentref; a

- Gwrthod ceisiadau i gofrestru tir fel maes tref a phentref pan fo tir o'r fath wedi mynd yn rhan o'r system gynllunio (am eglurhad pellach, gweler y manylion sy'n gysylltiedig ag Atodlen 6 o Ddeddf 2015 yn Atodiad A).

1.5 Roedd yr ymatebion i gynigion y polisi sy'n gysylltiedig â maes tref a phentref yn bositif gan fwyafrif yr ymatebwyr ac er mwyn eu datblygu, byddai angen newidiadau i'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Cafodd y newidiadau hyn eu cyflwyno yn Neddf 2015 (a nodir yn Nhabl 1).

*Tabl 1:*

| Darpariaeth Deddf 2015 | Yr effaith pan ddaw i rym |
|---|---|
| Adran 52[1] - Datganiad gan berchennog i ddod â'r defnydd o'r tir fel hawl i ben | Mae'r adran hon yn diwygio adran 15A o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 fel y bo'n berthnasol mewn cysylltiad â Chymru.<br><br>Mae Adran 15A o Ddeddf 2006, fel y'i diwygiwyd, yn darparu ar gyfer cael perchennog tir i adneuo datganiad gyda'u hawdurdod cofrestru tir comin (gyda map), er mwyn dod ag unrhyw gyfnod y mae pobl wedi cynnal chwaraeon a diddordebau ar y tir dan sylw fel hawl i ben. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru at ddibenion creu, mewn rheoliadau, rhai mathau o ddarpariaethau gweithdrefnol sy'n gysylltiedig ag adneuo unrhyw ddatganiad o'r fath.<br><br>Gan y bydd adran 15A yn berthnasol i Gymru, golyga hyn, fel canlyniad, bod adran 15B Deddf 2006 yn berthnasol yn yr un ffordd.<br><br>Mae Adran 15B yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cofrestru tiroedd comin gynnwys gwybodaeth am ddatganiadau sy'n cael eu hadneuo o dan adran 15A a'r mapiau sy'n cyd-fynd â hwy. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru at ddibenion gwneud darpariaethau mewn rheoliadau ynghylch yr wybodaeth sy'n ofynnol a'r dull o gadw cofrestr. |
| Adran 53[2] - Eithrio hawl i wneud cais i gofrestru | Mae'r adran hon yn diwygio adran 15A o Ddeddf 2006 fel y bo'n berthnasol i Gymru.<br><br>Mae Adran 15C yn eithrio hawl person i wneud cais i gofrestru maes tref neu bentref mewn amgylchiadau penodol ("digwyddiadau cychwyn"). Mae hefyd yn darparu ar gyfer sefyllfa pan fydd hawl person i wneud cais i gofrestru yn dod i ben oherwydd digwyddiad cychwyn, ac y daw hawl o'r fath i rym eto o dan amgylchiadau penodol ("digwyddiadau terfynu"). |

[1]Mewn grym at ddibenion creu rheoliadau (gweler adran 58(2)(b) Deddf 2015.

[2] Fel yr uchod

| | |
|---|---|
| | Caiff yr ystod o ddigwyddiadau cychwyn a terfynu eu nodi yn Atodlen 1B newydd o Ddeddf 2006, a gyflwynwyd ar ddechrau Atodlen 6 o Ddeddf 2015, sy'n cael eu disgrifio yn Atodiad A. |
| Adran 54[3] - Ceisiadau i ddiwygio cofrestrau: pŵer i wneud darpariaeth ynghylch ffïoedd | Mae'r adran hon yn gwneud newidiadau i adran 24 Deddf 2006 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau mewn rheoliadau ynghylch gwneud a phenderfynu ar unrhyw gais i ddiwygio cofrestr tir comin a meysydd tref a phentref.<br><br>Effaith y diwygiadau hyn yw y gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaethau nid yn unig o ran y ffïoedd sy'n daladwy ar gyfer cais o'r fath i'r person y caiff y cais ei wneud iddo, ond hefyd i'r person sy'n penderfynu ar gais. |

**Pwrpas yr Ymgynghoriad**

1.6 Ein bwriad yw dechrau ar adrannau 52 a 53, ac Atodlen 6, o Ddeddf 2015 o ran yr hyn sydd ddim mewn grym eisoes ac i wneud rheoliadau i reoli'r weithdrefn sy'n berthnasol i adneuo datganiad sy'n dod ag unrhyw gyfnod ble y mae pobl wedi cymryd rhan mewn chwaraeon neu ddiddordebau cyfreithiol fel hawl, i ben.

1.7 Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn barn ynghylch cynigion sy'n gysylltiedig â chynnwys y rheoliadau hyn.

## 2. Cynigion Meysydd Tref a Phentref

**Golwg Gyffredinol**

2.1 Mae'r egwyddor ar gyfer diwygio y system meysydd tref a phentref yng Nghymru eisoes wedi'i sefydlu drwy ddarpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf 2015.

2.2 Mae'r cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r materion canlynol:

- Yr wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn datganiad a gyflwynwyd i awdurdod cofrestru tiroedd comin gan berchennog;
- Ffïoedd sy'n daladwy i awdurdod cofrestru tiroedd comin;
- Cyhoeddi datganiad wrth gyflwyno a chael ei dderbyn gan awdurdod cofrestru tiroedd comin;

[3]Mewn grym ar gyfer pob diben perthnasol (gweler adran 58(2)(b) o Ddeddf 2015 ac erthygl 2 o Orchymyn Deddf Gynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol) 2017 (O.S. 2017/546)

- Cadw cofrestr i gofnodi gwybodaeth; a
- Dileu eitemau o'r gofrestr, pan y bo'n hysbys bod yr wybodaeth yn anghywir.

**Y Cynigion**

<u>Gwneud datganiad i awdurdod cofrestru tiroedd comin</u>

*Gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn datganiad*

2.3 Mae Adran 15A(1) o Ddeddf 2006 yn rhoi'r pŵer i berchnogion tir gyflwyno datganiad i'w hawdurdod cofrestru tiroedd comin perthnasol a fyddai'n dod ag unrhyw gyfnod pan fyddai pobl wedi cymryd rhan mewn chwaraeon neu ddiddordebau cyfreithiol ar y tir dan sylw i ben, a chyfyngu ar yr amser y gellir cyflwyno cais i gofrestru'r tir fel maes tref neu bentref. Bydd cychwyn adran 52 o Ddeddf 2015 yn dod ag Adran 15A o Ddeddf 2006 i rym, mewn perthynas â Chymru.

2.4 Rydym yn rhagweld y bydd yr wybodaeth sy'n rhaid ei chynnwys mewn datganiad sy'n cael ei hadneuo gyda'r awdurdod cofrestru tiroedd comin yr un fath i bob achos (er enghraifft, enw a chyfeiriad y perchennog tir a disgrifiad o'r tir). Felly, er mwyn sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio ar draws yr holl awdurdodau cofrestru tiroedd comin yng Nghymru, rydym yn ei ystyried yn briodol i gyflwyno ffurf benodedig ar gyfer datganiadau, a ddylai gynnwys, o leiaf:

- Enw yr awdurdod cofrestru tiroedd comin y cyflwynir y datganiad iddo;
- Enw a chyfeiriad llawn y perchennog tir (neu'r cynrychiolydd penodedig sy'n cyflwyno ar eu rhan - gweler paragraff 2.5);
- Disgrifiad o'r tir;
- Cyfeirnod grid chwe ffigur yr Arolwg Ordans;
- Datganiadau i'w llofnodi gan y perchennog tir (neu'r cynrychiolydd penodedig sy'n cyflwyno ar eu rhan - gweler paragraff 2.5).

2.5 Yn ogystal â'u datganiad, byddai angen i berchnogion tir hefyd gyflwyno Map Arolwg Ordnans o'r tir y mae'r datganiad yn berthnasol iddo, ar raddfa benodedig, gan gynnwys ffin y tir.

*Datganiadau*

2.6 Cyn i ddatganiad gael ei gyflwyno i'r awdurdod cofrestru tiroedd comin perthnasol, rydym yn ei ystyried yn bwysig i greu declerasiwn ar y datganiad i gadarnhau bod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn y datganiad ac unrhyw ddogfennaeth atodol, yn wir a chywir, hyd eithaf gwybodaeth y perchennog tir. Felly, dylai fod yn ofynnol i'r perchnennog tir lofnodi a dyddio'r datganiad y maent yn ei gyflwyno.

2.7 Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd amgylchiadau ble na fydd perchennog tir yn gallu llofnodi eu datganiad, er enghraifft, os nad ydynt yn gallu darllen. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai'n dderbyniol i ganiatáu i berchennog tir ofyn i ffrind, berthynas neu gynrychiolydd arall o'u dewis lofnodi'r datganiad ar eu rhan.

*Ffïoedd ar gyfer cyflwyno datganiad*

2.8 Rydym yn cydnabod ac yn derbyn y bydd y gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â phrosesu datganiad perchennog tir yn golygu costau i awdurdodau cofrestru tiroedd comin. Felly, er mwyn helpu gyda'r costau hyn, rydym yn ei ystyried yn rhesymol i'r awdurdodau cofrestru tiroedd comin godi tâl i berchnogion tir pan fyddant yn cyflwyno datganiad a dogfennau atodol.

2.9 Nid ydym yn cynnig codi tâl penodol mewn deddfwriaeth, fodd bynnag, byddem yn disgwyl i awdurdodau cofrestru tiroedd comin bennu tâl rhesymol sy'n adfer y costau gweinyddol yn unig sy'n gysylltiedig â phrosesu a chofrestru datganiad.

**Cwestiynau ymgynghori:**

**C.1 Ydych chi yn cytuno bod yr wybodaeth sydd ei hangen ym mharagraff 2.4 yn briodol? A ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol mewn datganiad?**

**C.2 Ydych chi yn cytuno y byddai'n rhesymol i berchennog tir gael cynrychiolydd o'u dewis i lofnodi eu datganiad os nad ydynt yn gallu llofnodi'r datganiad eu hunain? Os nad ydych, pam?**

**C.3 Ydych chi yn cytuno y dylai awdurdodau cofrestru tiroedd comin allu codi eu tâl eu hunain i weinyddu a phrosesu datganiadau, gyda'r nod o adfer y gost o ddarparu'r gwasanaeth hwn? Os nad ydych, pam?**

Rheoli a chyhoeddi datganiad

*Cydnabod derbynneb*

2.10 Er mwyn sicrhau eglurder a sicrwydd, dylai awdurdodau cofrestru tiroedd comin ddarparu llythyr cydnabod i'r perchnogion tir (a'r person lofnododd ddatganiad ar eu rhan, os yn berthnasol) gyda llythyr cydnabod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, sy'n cadarnhau bod eu datganiad a'r dogfennau atodol wedi dod i law. Byddai hyn yn lleihau unrhyw bryderon fyddai gan berchennog tir ynghylch a yw datganiad y maent wedi ei gyflwyno i'w hawdurdod cofrestru tiroedd comin wedi ei dderbyn ai peidio.

2.11 Dylid anfon llythyr o gydnabyddiaeth ar ffurf y datganiad a'r ddogfennaeth a ddaeth i law (h.y. ar ffurf papur ar gyfer datganiadau a gyflwynwyd â llaw neu drwy'r post ac ar ffurf electronig ar gyfer datganiadau a gyflwynwyd yn electronig).

2.12 Mewn amgylchiadau ble y daw datganiad i law heb unrhyw un (neu dim ond rhai) o'r dogfennau a nodir ym mharagraff 2.2, byddai'n ofynnol i awdurdodau cofrestru tiroedd comin ysgrifennu at y perchennog tir (a'r person a lofnododd y declarasiwn ar y datganiad, os yn berthnasol) cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol rhesymol, i egluro nad oedd yn bosibl prosesu a chofnodi eu datganiad tan i'r wybodaeth ofynnol ddod i law. Dylai perchnogion tir (a'r person lofnododd ddatganiad ar eu rhan, os yn berthnasol) fod yn ymwybodol nad yw'n bosib i'w datganiad ddod i rym tan i'r holl wybodaeth sydd ei hangen ym mharagraff 2.2 ddod i law yr awdurdod cofrestru tiroedd comin.

2.13 Os caiff yr wybodaeth sydd ar goll ei hanfon a'i derbyn, bydd yn ofynnol i'r awdurdodau cofrestru tiroedd comin anfon llythyr cydnabod, yn unol â pharagraff 2.8.

*Cyhoeddi datganiad*

2.14 I sicrhau bod y broses yn dryloyw, bydd yn ofynnol i'r awdurdodau cofrestru tiroedd comin hysbysu'r cyhoedd o ddatganiad sydd wedi ei gyflwyno gan berchennog tir, a allai gael effaith ar gofrestru y tir dan sylw fel maes tref neu bentref. Byddai'n ofynnol i awdurdodau cofrestru tiroedd comin:

- Gyhoeddi hysbysiad o dderbyn ar eu gwefan, neu ar wefan sy'n cael ei chynnal ganddynt;
- Anfon hysbysiad o'r datganiad i unrhyw berson sydd wedi gwneud cais yn y gorffennol i gael eu hysbysu o'r holl ddatganiadau, naill ai ar bapur neu ar ffurf electronig;
- Postio copi o'r rhybudd ar neu'n agos at y tir y mae'r datganiad yn berthnasol iddo neu mewn lle amlwg am gyfnod o 60 niwrnod o leiaf; a
- Chymryd camau rhesymol i amddiffyn yr hysbysiad, ac os oes angen, osod un newydd os y caiff ei symud, ei ddifrodi neu ei guddio.

2.15 Er bod cyflwyno datganiad o dan adran 15A Deddf 2006 yn dod ag unrhyw gyfnod y mae pobl wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a diddordebau ar y tir dan sylw fel hawl i ben, mae cyfnod o ddwy flynedd yn dilyn hyn pan fydd yn bosibl gwneud cais i gofrestru'r tir fel maes tref neu bentref i'r awdurdod cofrestru tiroedd comin, ar yr amod bod trigolion lleol wedi cymryd rhan mewn chwaraeon neu ddiddordebau cyfreithiol ar y tir am gyfnod o 20 mlynedd o leiaf.

2.16 Bydd y cyfnod hwn o ddwy flynedd yn dechrau o'r dyddiad sy'n cael ei gynnwys yn y llythyr cydnabyddiaeth a gafodd ei anfon gan awdurdodau cofrestru'r tiroedd comin, sy'n cadarnhau bod yr holl wybodaeth sydd angen ei chyflwyno gyda datganiad ym mharagraff 2.2 wedi ei hanfon.

Cynnal cofrestr

2.17 Mae Adran 15B o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cofrestru tiroedd comin i gadw cofrestr o'r holl ddatganiadau, mapiau i gyd-fynd â hwy ac unrhyw ddogfennau eraill a gyflwynir iddynt. Bydd hyn yn berthnasol i awdurdodau cofrestru tiroedd comin yng Nghymru pan fydd adran 52 o Ddeddf 2015 wedi cychwyn.

2.18 Bwriad cynnal a chadw cofrestr yw sicrhau bod y datganiadau a'r dogfennau ategol sy'n cael eu cyflwyno i awdurdodau cofrestru tiroedd comin yn hawdd i'w gweld gan unrhyw berson, pe byddent yn dymuno, naill ai yn electronig, neu ar bapur, sy'n annog tryloywder a hygyrchedd.

2.19 Rydym yn cynnig bod awdurdodau cofrestru tiroedd comin yn cadw cofrestr o'r holl ddatganiadau i gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(a) Copi o'r map ac unrhyw hanes sy'n cyd-fynd, neu yn llunio rhan o'r map;

(b) Copi o'r datganiad sy'n cael ei gyflwyno i'r awdurdod cofrestru tiroedd comin perthnasol;

(c) Enw a chyfeiriad y perchennog tir, ac os yn berthnasol, y person lofnododd ac a adneuodd y datganiad ar eu rhan;

(d) Dyddiad y daeth y datganiad i law yr awdurdod cofrestru tiroedd comin;

(e) Manylion y tir a ddangosir ar y map, gan gynnwys:
  (i) Cyfeirnod grid 6 ffigur yr Arolwg Ordnans;
  (ii) Enw y ward neu'r ardal ble y mae'r tir;
  (iii) Cyfeiriad a chod post yr adeiladau ar y tir; ac
  (iv) Enw y dref neu'r ddinas sydd agosaf at y tir.

(f) Teitl swydd y person yn yr awdurdod cofrestru tiroedd comin y gellid eu holi ynghylch cynnwys y cofrestr;

(g) Cyfeiriad ebost a rhif ffôn yr awdurdod cofrestru tiroedd comin;

(h) Mynegai o gynnwys y gofrestr; ac

(i) Unrhyw wybodaeth arall y maent yn teimlo sydd ei hangen.

Fformat cofrestr

2.20 Mae gwelliannau mewn technoleg gyfrifiadurol wedi golygu bod modd dod o hyd i wybodaeth yn gynt a'u bod yn dod yn haws i'w defnyddio. Gyda'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnal gwefan, gallai'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â maes trefn neu bentref (h.y. canllawiau a ffurflenni cais) fod ar gael yn rhwydd, heb fod angen cysylltu â swyddfeydd yr awdurdod lleol yn uniongyrchol.

2.21 Rydym yn ystyried ei fod yn briodol i holl gofrestrau awdurdodau cofrestru tiroedd comin gael eu cadw ar ffurf electronig ar eu gwefan, neu ar wefan sy'n cael ei chynnal ganddynt. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei chadw mewn un lle, yn hawdd i'w chyrraedd a bod modd ei newid, ble y bo angen.

2.22 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw'r cyfleusterau hyn mor hygyrch i rhai grwpiau o bosibl, ac mewn rhai lleoliadau, felly rydym yn cynnig, yn ogystal â chofrestr electronig, y dylai awdurdodau cofrestru tiroedd comin gadw fersiwn papur o'r gofrestr yn eu swyddfeydd. Dylid ei chadw mewn dull sy'n addas i alluogi cymryd copi o ddatganiad (gan gynnwys unrhyw ddogfennau atodol) gan unrhyw berson sy'n gofyn am gopi.

**Cwestiynau ymgynghori:**

**C.4 A ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth bellach yn y gofrestr, yn ogystal â'r hyn a argymhellir ym mharagraff 2.19?**

**C.5 Ydych chi yn cytuno y dylai'r gofrestr sydd angen ei chynnal a'i chadw gan awdurdodau cofrestru tiroedd comin fod ar ffurf electronig a phapur? Os nad ydych, pam?**

Dileu eitemau o'r gofrestr

2.23 Mae'n bosibl bod achosion ble y caiff datganiad a dogfennau atodol eu hadneuo i awdurdod cofrestru tiroedd comin a'u lanlwytho ar y gofrestr, dim ond i gamgymeriad pwysig (er enghraifft, amlinelliad ffin anghywir) gael ei ganfod naill ai yn y datganiad, y dogfennau atodol neu'r ddau. Gallai hyn achosi dryswch o bosibl ymysg y rhai sydd â diddordeb.

2.24 Rydym yn argymell, mewn achosion ble y mae camgymeriad pwysig yn cael ei ganfod naill ai mewn datganiad neu unrhyw ddogfennau atodol, ac wedi ei eu lanlwytho ar y gofrestr, bod yr awdurdod cofrestru tiroedd comin yn cadw'r wybodaeth sydd ganddynt ar y gofrestr am gyfnod ac yn rhoi'r cyfle i'r perchennog tir (neu gynrychiolydd penodedig) gywiro'r camgymeriad(au).

2.25 Byddai'n ofynnol i'r awdurdod cofrestru tiroedd comin ysgrifennu at y perchennog tir (neu gynrychiolydd penodedig ar eu rhan) cyn gynted ag sy'n ymarferol i roi amlinelliad o'r camgymeriad(au) pwysig a gafodd eu canfod yn y datganiad ac / neu y dogfennau atodol ac yn rhoi hysbysiad o'u bwriad i ddileu'r datganiad a'r dogfennau atodol os nad oes gwybodaeth ddiwygiedig ar gael o fewn cyfnod penodedig.

2.26 Rydym yn cynnig bod perchnogion tir (neu eu cynrychiolydd penodedig) yn cael cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad y llythyr a anfonwyd gan yr awdurdod cofrestru tiroedd comin, i gyflwyno unrhyw wybodaeth ddiwygiedig neu ddogfennau sy'n cywiro'r camgymeriad(au) pwysig a nodwyd.

2.27 Os nad oes gwybodaeth neu ddogfennau yn dod i law gan yr awdurdod cofrestru tiroedd comin o fewn y cyfnod 28 niwrnod, byddai'n ofynnol iddynt ddileu unrhyw ddatganiad perthnasol a'r dogfennau atodol o'u cofrestr ar unwaith. Golyga hyn y gallai'r tir sy'n gysylltiedig â'r datganiad barhau i gael ei ddefnyddio yn y dull yr arferai gael ei ddefnyddio cyn cyflwyno'r datganiad.

**Cwestiynau ymgynghori:**

**C.6 Ydych chi yn cytuno â'n cynigion i ddarparu cyfnod o 28 niwrnod i berchnogion tir (neu eu cynrychiolydd penodedig) gyflwyno unrhyw wybodaeth neu ddogfennau diwygiedig i gywiro camgymeriad pwysig? Os nad ydych, pam?**

**C.7 A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i’w gwneud am y papur ymgynghori?**

## Atodiad A

**Atodlen 6 (cyflwynwyd gan adran 53(3) Deddf 2015)**
**Meysydd Tref a Phentref: Atodlen Newydd 1B o Ddeddf Tiroedd Comin 2006**

| *Digwyddiadau Cychwyn* | *Digwyddiadau Terfynu* |
|---|---|
| 1. Bod cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu'r tir yn cael ei roi o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, neu gyfarwyddyd bod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu'r tir i gael ei roi o dan adran 90 y Ddeddf honno. | (a) Pan fo'r caniatâd cynllunio yn destun amod bod yn rhaid i'r datblygiad y mae'n berthnasol iddo gychwyn o fewn cyfnod penodol, bod y cyfnod hwnnw yn dod i ben heb i'r datblygiad gychwyn.<br><br>(b) Wedi i'r cyfnod a nodwyd yn yr hysbysiad cwblhau ddod i ben, nid oes grym gan y caniatâd cynllunio ar y tir oherwydd adran 95(4) o Ddeddf 1990.<br><br>(c) Mae gorchymyn a wnaethpwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru o dan adran 97 Deddf 1990 yn dirymu y caniatâd cynllunio neu yn ei addasu fel nad yw'n berthnasol i'r tir.<br><br>(d) Mae'r caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod gan lys barn. |
| 2. Mae gorchymyn datblygu lleol sy'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu'r tir yn weithredol yn cael ei fabwysiadu at ddibenion paragraff 3 o Atodlen 4A i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. | (a) Mae'r caniatâd sy'n cael ei roi gan y gorchymyn ar gyfer datblygu'r tir yn weithredol yn peidio â bod yn berthnasol o herwydd cyflwr neu gyfyngiad a nodwyd yn y gorchymyn o dan adran 61C(1) Deddf 1990.<br><br>(b) Cyhoeddir cyfarwyddyd o dan bwerau a roddir gan y gorchymyn o dan adran 61C(2) Deddf 1990, sy'n golygu nad yw rhoi caniatâd drwy'r gorchymyn yn berthnasol i ddatblygu'r tir yn weithredol.<br><br>(c) Bod y gorchymyn yn cael ei ddiwygio o dan baragraff 2 o Atodlen 4A o Ddeddf 1990 sy'n golygu nad yw'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu'r tir yn weithredol. |

| | |
|---|---|
| | (d) Caiff y gorchymyn ei ddirymu o dan adran 61A(6) neu 61B(8) o Ddeddf 1990.<br><br>(e) Caiff y gorchymyn ei ddirymu gan lys barn. |
| 3. Caiff gorchymyn sy'n cydsynio i ddatblygu tir ei wneud o dan adran 114 o Ddeddf Cynllunio 2008. | (a) Mae'r gorchymyn sy'n cydsynio i ddatblygiad yn peidio â chael effaith oherwydd adran 154(2) o Ddeddf 2008.<br><br>(b) Mae gorchymyn sy'n cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 2 neu 3 o Atodlen 6 i Ddeddf 2008 yn newid y gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad i ddatblygiad fel nad yw'n berthnasol i'r tir.<br><br>(c) Mae gorchymyn sy'n cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 3 o Atodlen 6 i Ddeddf 2008 yn dirymu'r gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad i ddatblygiad.<br><br>(d) Caiff y gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad i ddatblygiad ei wrthod gan lys barn. |